






Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Ioan 21: 1-14	 A promotional image for a Bible story. It shows a group of men in a wooden boat on a body of water. The text 'THE EASTER STORY' is at the top, and 'JESUS APPEARS TO DISCIPLES IN GALILEE' is in large blue letters in the center. The website 'www.freebibleimages.org' is at the bottom. The reference 'John 21:1-14' is in the top right corner.	
1 Roedd criw o ddisgyblion Iesu gyda'i gilydd — Simon Pedr, Tomos, Nathanael, Iago, Ioan a dau ddisgybl arall. Roedden nhw ger Llyn Tiberias.	 A photograph of a traditional wooden boat with a single mast and sail, floating on a calm blue lake under a clear sky. The shoreline is visible in the background.	
2 "Dw i'n mynd i bysgota," meddai Simon Pedr wrth y lleill. A dyma nhw'n ateb, "Dŷn ni am ddod hefyd." Felly dyma nhw'n mynd allan mewn cwch, ond wnaethon nhw ddal dim drwy'r nos.	 A photograph showing several men in a wooden boat on the water. They are dressed in simple, earthy clothing, and one man appears to be handling the boat's equipment.	
3 Pan oedd hi'n dechrau gwawrio dyma Iesu'n sefyll ar lan y llyn, ond doedd y disgyblion ddim yn gwybod mai Iesu oedd yno.	 A photograph of a man in a white robe standing on a sandy shore next to a body of water. The water is calm, and the man's reflection is visible. The background shows a hilly landscape under a clear sky.	

-
- 4 Galwodd arnyn nhw,
"Oes gynnoch chi
bysgod ffrindiau?" "Nac
oes," medden nhw.



-
- 5 Yna dwedodd Iesu,
"Taflwch y rhwyd ar ochr
dde'r cwch, a byddwch
yn dal rhai."



-
- 6 Dyma nhw'n gwneud
hynny.....



-
- 7 a chafodd cymaint o
bysgod eu dal nes eu
bod nhw'n methu
tynnu'r rhwyd yn ôl i'r
cwch.



-
- 8 Dyma Iwan yn dweud
wrth Pedr, "Yr Arglwydd
ydy e!" A dyma Simon
Pedr yn neidio i'r dŵr.



-
- 9 Daeth y disgyblion eraill ar ei ôl yn y cwch, gan lusgo'r rhwyd oedd yn llawn o bysgod ar eu holau. (Doedden nhw ond ryw 90/100 metr o'r lan.)



-
- 10 Ar y lan roedd tân golosg a physgod yn coginio arno, ac ychydig fara.



-
- 11 "Dewch a rhai o'r pysgod dych chi newydd eu dal," meddai Iesu wrthyn nhw. Felly dyma Simon Pedr yn mynd i mewn i'r cwch a llusgo'r rhwyd i'r lan.



-
- 12 Roedd hi'n llawn o bysgod mawrion, 153 ohonyn nhw, ond er hynny wnaeth y rhwyd ddim rhwygo.



-
- 13 "Dewch i gael brecwast," meddai Iesu. Doedd dim un o'r disgyblion yn meiddio gofyn iddo, "Pwy wyt ti?" — roedden nhw yn gwybod yn iawn mai'r Arglwydd oedd e.



-
- 14 Yna dyma Iesu'n cymryd y bara a'i roi iddyn nhw, a gwneud yr un peth gyda'r pysgod. Dyma'r trydydd tro i Iesu adael i'w ddisgyblion ei weld ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw.



-
- 15 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



www.freebibleimages.org

-
- 16

